Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

2016-2020

# **Cynllun Gweithredu**

Draft

Cyhoeddwyd yn Ebrill 2016

# Amcanion Cydraddoldeb 2016-2020

## Bywyd ac Iechyd

- **Amcan Cydraddoldeb 1**

  Gostwng nifer y Tanau mewn Anheddau a'r anafusion cysylltiedig drwy strategaeth ataliol gynhwysfawr wedi'i hanelu'n arbennig at bobl y gellir dangos eu bod mewn mwy o berygl oherwydd eu nodweddion a/neu eu hamgylchiadau penodol.

## Cyflogaeth

- **Amcan Cydraddoldeb 2**

  Drwy ein harferion cyflogaeth, ein rhaglenni a'n cynlluniau ein hunain, cynyddu'r siawns o swydd i bobl a fyddai fel arall yn ei chael yn anodd cael mynediad cyfartal i fyd gwaith.

## Addysg

- **Amcan Cydraddoldeb 3**

  Drwy raglen gynhwysfawr o addysg a chyngor wedi'u teilwra, yn cael eu darparu'n unigol ac ar y cyd, rhoi grym i bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru i barhau i leihau eu lefel eu hunain o risg rhag tân a pheryglon eraill drwy gydol y camau gwahanol yn eu bywydau.

## Diogelwch Personol

- **Amcan Cydraddoldeb 4**

  Lleihau'r risg o farwolaeth neu anaf oherwydd tanau yng Ngogledd Cymru drwy ddarparu gwasanaethau effeithiol i atal ac amddiffyn ac ymateb i danau ac achub.

## Cynrychiolaeth a Llais

- **Amcan Cydraddoldeb 5**

  Drwy fod yn agored ac atebol am yr hyn a wnawn a beth yw'n cynlluniau, annog mwy o bobl i ymwneud â'r broses o benderfynu sut caiff gwasanaethau tân ac achub eu darparu yng Ngogledd Cymru, a cheisio cynyddu'r amrywiaeth o leisiau cynrychioliadol sy'n cyfrannu at y broses honno.

## Mynediad at Wasanaethau, Gwybodaeth ac Adeiladau

- **Amcan Cydraddoldeb 6**

  Gwella mynediad at wybodaeth a chyfathrebiadau gyda'r Gwasanaeth, a gwella mynediad corfforol at adeiladau'r gwasanaeth tân ac achub y mae'r cyhoedd yn eu defnyddio neu'n ymweld â nhw.



Draft

# Cynllun Gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 2016-2020

## Bywyd ac Iechyd

| **Amcan Cydraddoldeb 1**<br><br>Gostwng nifer y Tanau mewn Anheddau a'r anafusion cysylltiedig drwy strategaeth ataliol gynhwysfawr wedi'i hanelu'n arbennig at bobl y gellir dangos eu bod mewn mwy o berygl oherwydd eu nodweddion a/neu eu hamgylchiadau penodol. | | |
|---|---|---|
| **Amcan Cydraddoldeb** | **Camau Gweithredu** | **Rheolwr Arweiniol** |
| Mapio proses yr Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref o dderbyn ceisiadau ac adnabod angen hyd at eu cwblhau. | Cwblhau proses fapio gynhwysfawr er mwyn ceisio gwneud y gwaith o gynllunio a chynnal Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref yn fwy effeithlon, fel y gall y Gwasanaeth ganolbwyntio fwy ar bobl y gwyddom fod eu nodweddion, eu hamgylchiadau a/neu eu hymddygiadau yn eu gosod mewn categorïau sy'n fwy agored i niwed. | Rheolwr Cynllunio Corfforaethol |
| Adolygu'r broses asesu effaith ar gydraddoldeb, a sefydlu trefn ar gyfer sicrhau ansawdd asesiadau a gwblhawyd. | Adolygu'r canllaw a'r templed asesu effaith ar gydraddoldeb; sefydlu a fyddai templed diwygiedig yn gymorth i staff gwblhau asesiadau. Manteisio ar y cyfle i integreiddio ffurflen newydd ar gyfer asesiadau, codi ymwybyddiaeth a gwella ansawdd asesiadau mewn cydweithrediad ag adolygiad y Safonau Gwasanaeth a Phroffesiynol o strwythur polisïau'r Gwasanaeth. Bydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn asesu proses gyfredol yr asesiadau, ac yn gwneud sylwadau i broses ymgynghori'r Safonau Gwasanaeth a Phroffesiynol.<br><br>Fel rhan o'r broses adolygu, ystyrir cyflwyno panel sicrhau ansawdd i adolygu a chymeradwyo asesiadau a gwblhawyd. | Ymgynghorydd Cydraddoldeb |
| Datblygu dull cyson ac wedi'i dargedu i gasglu a dehongli data risg yng nghyd-destun nodweddion gwarchodedig er mwyn deall yn | Comisiynu proffil strategol o broblemau er mwyn deall proffil y rhai a laddwyd neu a anafwyd mewn digwyddiadau o'r blaen. Gallai hyn gynnwys deall risgiau sy'n gysylltiedig â rhyw arfer penodol, ynghyd â | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |

| | | |
|---|---|---|
| llwyr a yw unrhyw grŵp penodol mewn mwy o berygl o dân na grŵp arall. | phroffil o ble y mae grwpiau neu unigolion penodol yn byw yng Ngogledd Cymru. | |
| Targedu'r rhai sydd eisoes yn hysbys am fod mewn mwy o berygl o dân i gael addysg neu ymyrraeth o ganlyniad i'w nodweddion gwarchodedig, sef oedran ac anabledd. | Defnyddio atgyfeiriadau gan bartneriaid a dulliau eraill o dargedu'r rhai sy'n hysbys am fod mewn mwy o berygl o dân, ar sail oedran neu anabledd.<br><br>Datblygu proses Asesu Perygl Cwympo i'w rhoi ar waith yng Ngogledd Cymru'n ehangach.<br><br>Datblygu gwasanaeth ymateb i gwympiadau mewn partneriaeth â Teleofal ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Datblygu system newydd o reoli gwybodaeth am risg sy'n berthnasol i'r unigolyn yn hytrach na'r safle, er mwyn bod yn fwy effeithiol am reoli anghenion y rhai sydd mewn mwyaf o berygl o dân. | Datblygu gofynion y broses fusnes a chomisiynu naill ai system newydd neu wneud newidiadau i'n systemau presennol er mwyn gallu cofnodi gwybodaeth am risg sy'n benodol i unigolion. | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Ymgorffori cydraddoldeb yng nghynllun cyflawni blynyddol grŵp llywio ymgyrchoedd Diogelwch Tân, a hynny wedi'i gysylltu â dyddiadau pwysig, a gwneud defnydd llawn o ddigwyddiadau er mwyn manteisio ar gyfleoedd i ymgysylltu â rhai â nodweddion gwarchodedig. | Codi ymwybyddiaeth am ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 ymysg y Grŵp Llywio Ymgyrchoedd, ac ystyried y gofyniad i gynnal gweithgareddau penodol i gefnogi unigolion neu grwpiau o ganlyniad i'w nodweddion gwarchodedig. | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |

Draft

## Cyflogaeth a Chyflog

| **Amcan Cydraddoldeb 2**<br><br>Drwy ein harferion cyflogaeth, ein rhaglenni a'n cynlluniau ein hunain, cynyddu'r siawns o swydd i bobl a fyddai fel arall yn ei chael yn anodd cael mynediad cyfartal i fyd gwaith. | | |
|---|---|---|
| **Amcan Cydraddoldeb** | **Camau Gweithredu** | **Swyddog Arweiniol** |
| Sicrhau bod tactegau, offer a chyfarpar amddiffyn personol yn y dyfodol yn gyson ag anghenion y Gwasanaeth ac yn talu sylw i'r nodweddion gwarchodedig.<br><br>Sicrhau bod offer yn fwy ergonomig o ran ymarferoldeb, yn pwyso llai heb gyfaddawdu ar y gofynion technegol, a bod y cyfarpar amddiffyn personol yn addas i'w pwrpas heb wahaniaethu. | Sefydlu ethos gwelliant parhaus ar gyfer offer gweithredol a chyfarpar amddiffyn personol o ran pob maes a allai gael effaith niweidiol ar y rhai sy'n dod dan y nodweddion gwarchodedig. | Uwch Reolwr Gweithrediadau |
| Cysylltu â chyflenwyr sy'n adeiladu peiriannau tân o'r math traddodiadol i integreiddio'n llwyr a'u hadeiladu ar gyfer corff 5'2", a'u perswadio i beidio â defnyddio'r manicin 6' fel safon ar gyfer dylunio.<br><br>Rhaid i ddogfennau caffael newydd yn swyddogaethau'r Fflyd Cymru gyfan gael nod amrywiaeth mesuradwy ar gyfer cyflenwyr a rheolwyr y Fflyd. | Tendr caffael cerbydau newydd ar gyfer Cymru gyfan i wella'r adran "Dylunio ar gyfer gweithlu amrywiol" i ddod yn agwedd fesuradwy ar y tendr.<br><br>Ymgysylltu â chyflenwyr a sicrhau bod yr agwedd hon ar y dyluniad yn cael ei bwysleisio i'r cyflenwyr, a sicrhau amcan gwirioneddol a mesuradwy.<br><br>Caiff cyflenwyr eu hannog i gael cysyniadau dylunio dyfeisgar er mwyn cynorthwyo Cymru i gael y budd hwn.<br><br>Ymgysylltu â "Merched yn y Gwasanaeth Tân ac Achub" i lwyr ddeall yr heriau a'r anghenion yn y GTA heddiw. | Rheolwr y Fflyd |

| | | |
|---|---|---|
| Cysylltu â sefydliadau addysg i gynnal diwrnodau agored i ddangos opsiynau gyrfaol mewn peirianneg i ferched sy'n ymadael â'r ysgol. | Ystyried diwrnodau agored yn y Fflyd i arddangos y busnes a'r cyfleoedd posibl i ymgeiswyr benywaidd. Rhedeg y broses ar y cyd ag ymgysylltu â diffoddwyr tân benywaidd/gweithredu cadarnhaol.<br><br>Annog sefydliadau addysg i gael nodau cydraddoldeb yn eu hamcanion mewn perthynas â swyddi traddodiadol. | Rheolwr y Fflyd |
| Drwy arferion cyflogaeth GTAGC, ei raglenni a'i gynlluniau, cynyddu'r siawns o gael swydd ymysg pobl a allai fel arall ei chael yn anodd cael mynediad cyfartal at fyd gwaith. | Adolygu diwrnodau Gweithredu Cadarnhaol, a chyfrannu at lunio Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol. Tynnu oddi ar arferion da, a throi'r erfynnau a'r broses o redeg digwyddiadau effeithiol ar gyfer gweithredu cadarnhaol yn un polisi, gyda deunyddiau ategol.<br><br>E.e. Targedu recriwtiaid benywaidd posibl drwy nifer o fentrau ychwanegol, gan gynnwys cysylltu â chlybiau chwaraeon, h.y. Cymdeithas Pêl-droed Merched, timau rhedeg, hoci a phêl-rwyd.<br><br>Ymgynghorwyr Ffitrwydd i ymweld â champfeydd a chanolfannau hamdden yn ystod oriau brig yn ogystal â mynd i ddigwyddiadau chwaraeon merched, e.e. Race For Life. | Rheolwr AD<br><br>Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu<br><br>Ymgynghorydd Cydraddoldeb |
| Hyrwyddo polisïau i gynorthwyo ac annog cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ymysg gweithwyr GTAGC. | Creu gwell cynllun Mamolaeth/Tadolaeth, sy'n ymgorffori deddfwriaeth ddiweddar i hybu rhagor o ymwybyddiaeth a chydraddoldeb.<br><br>Ymchwilio i ganllawiau ar gyfer gweithwyr sydd â chyfrifoldeb gofalu (Canllawiau Gofalu am Ddibynyddion).<br><br>Llunio canllawiau ar ymdrin â materion Iechyd Meddwl yn y gwaith i weithwyr a Rheolwyr Llinell (h.y. Ymwybyddiaeth Ofalgar) | Rheolwr AD |
| Canfod a mynd i'r afael â thangynrychiolaeth o fewn yr adran gyllid, ac asesu yr effaith a gaiff ailstrwythuro'r adran ar gydraddoldeb a sicrhau parhad busnes a chynllunio ar gyfer olyniaeth. | Ailstrwythuro'r adran, adolygu rolau a dyletswyddau, gan alinio tasgau a rolau ar gyfer sicrhau parhad busnes.<br><br>Cynnal ymarferiad cynllunio ar gyfer olyniaeth; amlinellu adran rithwir i droi ati yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod gan yr adran gyfuniad o staff i'w gwneud yn haws i weithio'n hyblyg. | Rheolwr Cyllid |

| | | |
|---|---|---|
| Gweithio tuag at gyflwyniad i Fynegai Stonewall | Meincnodi GTAGC yn erbyn Mynegai Stonewall.<br><br>Bydd y Rheolwr AD a'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn datblygu cynllun gweithredu i edrych yn fanwl ar y gofynion y byddai angen i GTAGC eu cyflawni er mwyn galluogi'r Gwasanaeth i baratoi cyflwyniad i Fynegai Gweithleoedd Stonewall.<br><br>Ystyried unrhyw oblygiadau o ran y gyllideb. | Ymgynghorydd Cydraddoldeb |
| Paratoi Llawlyfr Cydraddoldeb/Amrywiaeth ar gyfer y Gwasanaeth | Cynnal ymchwil mewn GTAau ac Awdurdodau Lleol eraill er mwyn penderfynu ar ddiwyg perthnasol a chynnwys ar gyfer Llawlyfr Cydraddoldeb y Gwasanaeth. | Ymgynghorydd Cydraddoldeb |

Draft

## Addysg a Sgiliau

### Amcan Cydraddoldeb 3

Drwy raglen gynhwysfawr o addysg a chyngor wedi'u teilwra, yn cael eu darparu'n unigol ac ar y cyd, rhoi grym i bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru i leihau eu lefel eu hunain o risg rhag tân a pheryglon eraill drwy gydol y camau gwahanol yn eu bywydau.

| Amcan Cydraddoldeb | Camau Gweithredu | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|
| Creu Strategaeth Hyfforddiant Cydraddoldeb | Creu strategaeth a chynllun gweithredu. | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Cyflwyno hyfforddiant am Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015 | Cynyddu ymwybyddiaeth am gam-drin domestig a darparu hyfforddiant i'r staff er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r hyn i gadw golwg amdano, a chael yr hyder i adrodd yn ei gylch. Cyflwyniad, hyfforddiant Lefel 1 yn symud i Lefel 2 | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |

# Diogelwch Personol

| **Amcan Cydraddoldeb 4**<br>Lleihau'r risg o farwolaeth neu anaf oherwydd tanau yng Ngogledd Cymru drwy ddarparu gwasanaethau effeithiol i atal ac amddiffyn ac ymateb i danau ac achub. | | |
|---|---|---|
| **Amcan Cydraddoldeb** | **Camau Gweithredu** | **Swyddog Arweiniol** |
| Sicrhau bod staff rheng flaen yn ymwybodol o faterion megis troseddau casineb a thrais domestig ac aflonyddu fel bod ganddynt yr hyder i ddefnyddio prosesau i adrodd yn eu cylch. | Defnyddio'r cyfle a geir drwy archwiliadau i godi ymwybyddiaeth ymysg staff rheng flaen | Uwch Reolwr Safonau Gwasanaeth a Phroffesiynol |
| Lleihau'r risg o anaf neu farwolaeth oherwydd tân drwy reoli'n well a sicrhau cywirdeb yr wybodaeth am leoliadau. | Cyflwyno rhestr gorfforaethol reoledig i'r Gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y System Rheoli a Gorchymyn yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfeiriadau | Rheolwr yr Ystafell Reoli |
| Lleihau'r risg o anaf a marwolaeth oherwydd tân drwy wella'r cydweithio rhwng partneriaid yn y Gwasanaethau Brys. | Rhannu llwyfannau technoleg gwybodaeth cyffredin er mwyn gallu cyfnewid gwybodaeth yn fwy amserol i reoli adnoddau'n fwy medrus er mwyn darparu ymateb mwy effeithiol i gymunedau Gogledd Cymru<br><br>GTAGC yn symud i rannu'r System Rheoli a Gorchymyn Integredig – Frequentis - sydd gan Heddlu Gogledd Cymru | Rheolwr yr Ystafell Reoli |
| Lleihau'r risg o anaf a marwolaeth oherwydd tân drwy gyflwyno systemau fel bod Gwybodaeth Risg ar gael yn well ar adeg yr alwad. | Cyflwyno System Rheoli a Gorchymyn newydd wedi'i chysylltu drwy'r rhestr newydd i'r System Rheoli Risg Tân a ddefnyddir fel ffynhonnell i storio gwybodaeth risg | Rheolwr yr Ystafell Reoli |
| Datblygu dull cyson ac wedi'i dargedu i gasglu a dehongli data risg yng nghyd-destun nodweddion gwarchodedig, er mwyn llwyr ddeall a yw rhai grwpiau penodol mewn mwy o berygl oherwydd tân na grwpiau eraill. | Gweithredu argymhellion cynllun peilot data Cydraddoldeb Gweithredol 2015. Dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd dros y cyfnod o 12 mis, a'i defnyddio i gefnogi unrhyw strategaeth ataliol yn y dyfodol lle bo angen. | Uwch Reolwr Gweithrediadau |

## Cynrychiolaeth a Llais

| **Amcan Cydraddoldeb 5**<br>Drwy fod yn agored ac atebol am yr hyn a wnawn a beth yw'n cynlluniau, annog mwy o bobl i ymwneud â'r broses o benderfynu sut caiff gwasanaethau tân ac achub eu darparu yng Ngogledd Cymru, a cheisio cynyddu'r amrywiaeth o leisiau cynrychioliadol sy'n cyfrannu at y broses honnon. | | |
|---|---|---|
| **Amcan Cydraddoldeb** | **Camau Gweithredu** | **Swyddog Arweiniol** |
| Gwella ymgynghori ac ymgysylltu drwy gryfhau cysylltiadau rhwng y Sector Cyhoeddus a grwpiau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli pobl o bob grŵp gwarchodedig. | Datblygu cynlluniau ar gyfer Ymgysylltu, sicrhau eu bod yn cynnwys "grwpiau nas clywir yn aml" ac adolygu'r gynrychiolaeth wirioneddol er mwyn targedu'r rhai sy'n dal heb fod yn cael eu cynnwys. | Ymgynghorydd Cydraddoldeb<br><br>Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol |

Draft

# Mynediad at Wasanaethau, Gwybodaeth ac Adeiladau

**Amcan Cydraddoldeb 6**

Gwella mynediad at wybodaeth a chyfathrebiadau gyda'r Gwasanaeth, a gwella mynediad corfforol at adeiladau'r gwasanaeth tân ac achub y mae'r cyhoedd yn eu defnyddio neu'n ymweld â nhw.

| Amcan Cydraddoldeb | Camau Gweithredu | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|
| Sicrhau bod dulliau priodol o gyfathrebu'n cael eu mabwysiadu wrth hyrwyddo negeseuon diogelwch blaenoriaethol a nodwyd gan yr adran Diogelwch Tân | Sicrhau bod hyn yn cael ei gysylltu ag Amcan Cyfathrebu Corfforaethol o ran cefnogi'r amcanion a datblygu cysylltiadau gweithio agos gyda'r Adrannau Diogelwch Tân Cymunedol a Lleihau Llosgi Bwriadol | Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol<br><br>Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Mabwysiadu Strategaeth Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd y cytunwyd arni | Ystyried ieithoedd lluosog, hygyrchedd; cydweithio â fforymau cynrychioliadol a grwpiau a sefydlwyd, ayyb | Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol |
| Gwella mynediad at wybodaeth a chyfathrebiadau, a gwella profiad y cwsmer. | Asesu/gwirio'r Strategaethau Cyfathrebu Corfforaethol am ganllawiau penodol ar ddiwygiau eraill a phrotocolau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd. Adolygu, defnyddio ac adrodd allbynnau'n deillio o ymchwiliadau (cwynion ayyb) er mwyn goleuo gwelliannau posibl | Uwch Reolwr Safonau Gwasanaeth a Phroffesiynol |
| Gwella'r gofyniad am amcanion cydraddoldeb ar gyfer adnewyddu tendrau cyflenwadau modurdy. | Bydd GTAGC yn ysgrifennu amcan cydraddoldeb i'r tendr newydd ar gyfer Cymru, gyda sgoriau mesuradwy. | Rheolwr y Fflyd |
| Gwella mynediad at adeiladau'r Gwasanaeth Tân ac Achub i ymwelwyr â'r Ganolfan Reoli ar y Cyd | Gwella mynediad i bobl anabl sy'n ymweld â'r Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd drwy well mynedfeydd â ffob, y cyfeiriad y mae drysau'n agor a chau, a sicrhau bod toiledau ar gael i bobl anabl (llawr gwaelod). | Rheolwr yr Ystafell Reoli<br><br>Rheolwr Ystadau |

| | | |
|---|---|---|
| Diweddaru'r Canllaw Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i Gontractwyr, a'i roi'n ffurfiol i holl gontractwyr cyfleusterau.<br><br>Sicrhau bod yr holl gontractwyr y mae'r Gwasanaeth yn trefnu eu bod yn gweithio ar safleoedd GTAGC yn ymwybodol o Gynllun Cydraddoldeb Strategol GTAGC a'r Polisi Cydraddoldeb. | Diweddaru ac ymgynghori'n fewnol ar ddogfen ganllaw.<br><br>Rhoi copïau o Bolisi Cydraddoldeb GTGAC i holl gontractwyr Cyfleusterau, a monitro cydymffurfiaeth y contractwyr. | Rheolwr Ystadau |

Draft